# Pwyllgor Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Adroddiad Cyfarfod Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (2)-04-06

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Gwener 17 Tachwedd 2006
### Amser y cyfarfod: 10.00am tan 12.30pm
### Lleoliad y cyfarfod: Neuadd Gymuned ac Ardal Pen-y-bont, Llandrindod, Powys

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | Sir Drefaldwyn |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru |

#### Eraill yn Bresennol

| Enw | Yn cynrychioli (os yn gymwys) | Eitem(au) ar yr Agenda |
|---|---|---|
| Chris Price | Strategaeth Digartrefedd, Rheolwr Cynorthwyo Pobl Cyngor Sir Powys | 2 |
| Robert Powell | Rheolwr Digartrefedd, Cyngor Sir Powys | 2 |
| Pamela Williams | Swyddog Monitro a Gwerthuso Ymchwil, Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, Cyngor Sir Powys | 3 |
| Rebecca Unsworth | Swyddog Cynnwys Pobl Ifanc, Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, Cyngor Sir Powys | 4 |
| Angharad Newlands | Fforwm Ieuenctid Powys | 4 |

| | | |
|---|---|---|
| Gwyn Bidgood | Fforwm Ieuenctid Powys | 4 |
| Konrad Ostoznik | Fforwm Ieuenctid Powys | 4 |

**Gwasanaeth y Pwyllgor**

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Steve George | Clerc y Pwyllgor |
| Ruth Hatton | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Joel Steed | Swyddog Cymorth y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad, Croeso, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod. Estynnodd groeso arbennig hefyd i blant o Ysgol Gynradd Crossgates ac Ysgol Gynradd Llanfihangel Rhydieithon a llawer o gynrychiolwyr lleol pwysig.

1.2 Hysbysodd y Cadeirydd hwy y dylent ddiffodd pob ffôn symudol ac offer electronig eraill. Roedd clustffonau ar gael ar gyfer cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg a phe bai angen gadael yr adeilad, dylent ddilyn y cyfarwyddiadau gan y Tywyswyr a'r Heddlu ac ymgasglu y tu allan i'r adeilad.

1.3 Cafwyd ymddiheuriadau gan:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Nick Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Tamsin Dunwoody | Preseli Sir Benfro |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Helen Mary Jones | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Catherine Thomas | Llanelli |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Yr Arglwydd Dafydd Ellis Thomas | Meirionydd Nant Conwy |

1.3 Gan mai dim ond tri aelod o'r Pwyllgor oedd yn bresennol aeth y cyfarfod yn ei flaen fel cyfarfod anffurfiol.

1.4 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## Eitem 2: Digartrefedd a Phobl Heb Do Uwch eu Pennau ym Mhowys

2.1 Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Chris Price, Strategaeth Digartrefedd, Rheolwr Cynorthwyo Pobl, Cyngor Sir Powys a Robert Powell, Rheolwr Digartrefedd, Cyngor Sir Powys.

2.2 Ceir copi o'r cyflwyniad yn Atodiad 1.

2.3 Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu cyflwyniad a gwahoddodd yr Aelodau i drafod y materion a godwyd.

## Cwestiynau Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd i'r Panel

2.4 Dywedodd yr Aelodau fod y cyflwyniad yn un addysgiadol a diddorol. Cododd yr Aelodau ac unigolion y pwyntiau canlynol gyda'r panel:

Nododd Kirsty Williams fod llety Gwely a Brecwast yn amhriodol i bobl ifanc o dan 18 oed. Yn aml, mae'r math hwn o lety'n gysylltiedig â bar neu dafarn neu hyd yn oed yn rhan ohonynt. Fodd bynnag, cydnabyddir, fodd bynnag, mai dyma'r unig lety sydd ar gael mewn ardal leol efallai . Gofynnodd a oedd unrhyw un yn yr ardal o dan 18 oed sydd wedi cael ei leoli yn y math hwn o lety. Gofynnodd hefyd am y broses sy'n galluogi person ifanc i ddod o hyd i lety yn ei ardal leol. Roedd yn cydnabod y gall hyn fod yn broblem yn ardal Aberhonddu a Llandrindod, a gofynnodd a oedd hyn oherwydd diffyg cymorth refeniw tai cymdeithasol. Gofynnodd hefyd pa brosesau mae adran y cyngor yn eu defnyddio i gael gwared ar y rhwystrau rhwng yr adran tai a'r adran budd-daliadau tai. Dywedodd y bydd gan y Cynulliad bwerau newydd ar ôl mis Mai 2007, a gofynnodd sut y caiff y rhain eu defnyddio i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru wledig. Ymatebodd Chris Price a Robert Powell drwy ddatgan nad oedd neb yn y grwp oedran 16-17 mewn llety gwely a brecwast yn y sir. Rhoddir llety i bobl ifanc yn eu hardal leol os yw ar gael ond os caiff pobl ifanc eu lleoli y tu allan i'w hardal leol gall gweithio gyda Foyer ac asiantaethau eraill leihau hyd eu harhosiad. Rhoddir llety â chymorth i'r bobl ifanc hyn yn aml yn ardal Llandrindod sy'n well na'u lleoli mewn llety gwely a brecwast. Gwnaed cais cyfalaf am lety yn Aberhonddu ac mae mwy o bobl wedi cael eu symud o lety dros dro i lety ar gyfer un person. O ran y pwerau newydd bu problemau o ran faint o lety sydd ar gael. Mae Powys wrthi'n datblygu gwasanaethau cyfryngu ar hyn o bryd ac yn gweithio gyda'r bartneriaeth pobl ifanc i sicrhau arian ar y cyd.

Cymeradwyodd Glyn Davies Gyngor Sir Powys amr yr ymagwedd maent wedi ei chymryd tuag at wneud mwy i rwystro problem digartrefedd rhag dechrau. Dywedodd fod ariannu pob gwasanaeth yn y Canolbarth yn broblem oherwydd cwtogi cyllidebau ond gofynnodd sut mae hyn yn effeithio ar y strategaeth ddigartrefedd. Ymatebodd Chris Price drwy ddweud eu bod yn hyderus y gallai'r gwaith da barhau, eu bod wedi gwneud arbedion drwy beidio â defnyddio llety gwely a brecwast a'u bod wedi datblygu ymagwedd 'gwario i gynilo'. Ychwanegodd Robert Powell eu bod yn falch o fod wedi sicrhau arian ar gyfer y cynghorwyr opsiwn tai.

Gofynnodd Derek Taylor, o Ben-y-bont a Chadeirydd Partneriaeth Economaidd Powys sut mae swyddogion y cyngor yn ymgysylltu â'r rhai sy'n ddigartref, ac amlinellodd yr angen i lunio rhaglenni cyflogaeth cyfrifol. Cynigiodd ateb hefyd i'r adran tai i gysylltu â'r rhaglenni Cyflogaeth. Ychwanegodd Chris Price y byddent yn sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n llawn â'r bartneriaeth a'r sector gwirfoddol yn y cyfnod yn arwain at gyfrif nifer y bobl sy'n ddigartref ym mis Mawrth 2007, pan fydd yr holl awdurdodau lleol yn cymryd rhan.

Canolbwyntiodd Martin Williams o'r Gwasanaeth Ysgolion ar gyfryngu a'i wneud yn broses ffurfiol gan fod ganddo hanes da o atal mewn sawl maes gwasanaeth. Ymatebodd Chris Price a Robert Powell drwy ddweud eu bod yn chwilio am gyfleoedd i wella'r gwasanaeth cyfryngu.

## Eitem 3: Bywyd Plant a Phobl Ifanc ym Mhowys - Archwiliad o Angen - Camau Cyntaf

3.1 Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Pamela Williams, Swyddog Monitro a Gwerthuso Ymchwil, Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, Cyngor Sir Powys.

3.2 Ceir copi o'r cyflwyniad yn Atodiad 2.

3.3 Diolchodd y Cadeirydd iddi am ei chyflwyniad a gwahoddodd yr Aelodau i drafod y materion a godwyd.

## Cwestiynau Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd i'r Panel

3.4 Dywedodd yr Aelodau fod y cyflwyniad yn un diddorol a oedd yn gwneud iddynt feddwl. Cododd yr Aelodau ac unigolion y pwyntiau canlynol gyda'r panel:

Cydnabu Glyn Davies fod llawer o ddata yn cael ei amlygu yn y cyflwyniad a gofynnodd sut y byddai hyn yn cael ei ddiweddaru a hefyd sut y byddai'r wybodaeth yn llywio'r llywodraeth leol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dywedodd Pamela Williams fod y wybodaeth yn cael ei defnyddio fel ffynhonnell i wneud cais am arian a'i bod hefyd yn rhan o gynllun partneriaeth pobl ifanc 2008. Dywedodd y caiff y wybodaeth ei diweddaru drwy ymgynghori.

Mynegodd Kirsty Williams bryder bod y cyflwyniad yn osgoi'r ffaith nad yw plant o'r farn bod addysg yn diwallu eu hanghenion. Ymatebodd Pamela Williams drwy ddweud ei bod wedi nodi yn ystod y broses o gasglu tystiolaeth bod pobl ifanc yn aml yn teimlo bod addysg yn eu cyfyngu a'u bod yn cyflawni sgiliau trosglwyddadwy.

Mynegodd Stuart Hulse, aelod o'r cyhoedd, bryder am y diffygion mae pobl yn aml yn eu hwynebu er mwyn talu costau tai. Ymatebodd Chris Price drwy ddweud bod llywodraeth ganolog yn gosod cyfyngiadau ar helpu i dalu costau tai.

Cyfeiriodd Sue Meeke, Pennaeth Ysgol Gynradd Crossgates, at y dystiolaeth bod plant yn aml yn teimlo'n bryderus ynglyn â mynd i'r ysgol uwchradd. Dywedodd fod hyn yn aml o ganlyniad i gynllunio trosiannol gwael ond bod cynlluniau trosiannol yn ei hardal hi yn gweithio'n dda iawn. Ychwanegodd Sarah, disgybl blwyddyn 6 o Crossgates, ei bod yn teimlo'n hapus ac yn gynhyrfus

ynglyn â mynd i'r ysgol uwchradd. Mae athrawon blwyddyn 7 wedi siarad â hi ac mae eisoes wedi gwneud ffrindiau â phlant eraill a fydd yn mynd i'r un ysgol. Eglurodd y bydd ei dosbarth hi, yr haf hwn, yn mynd i'r ysgol uwchradd am wythnos i baratoi ar gyfer y profiad o ysgol newydd.

Pwysodd y Cynghorydd Derek Law ar Aelodau'r Cynulliad i ystyried y dystiolaeth yn y cyflwyniad bod pobl ifanc yn gadael y Canolbarth ar ôl addysg statudol. Pwysleisiodd er bod niferoedd y disgyblion ysgol yn debygol o leihau y dylid gwrthod y temtasiwn i leihau'r arian a roddir i wasanaethau. Dywedodd fod natur wledig yn gostus. Mynegodd y Cynghorydd Sir Anne Morgan bryder am y cynlluniau i gau gwasanaethau iechyd lleol yn yr ardal. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn ysgrifennu at y Gweinidog perthnasol i gyfleu'r pryderon hyn. Mynegodd Penny Everett bryder hefyd am y bwlch rhwng cyflogau cyfartalog a chostau tai lleol.

3.5 Dywedodd y Cadeirydd wrth y cyfarfod y byddai lluniaeth yn cael ei weini yng nghefn y Neuadd.

3.6 Yn ystod yr egwyl, casglodd disgyblion Ysgol Gynradd Crossgates £75 i Apêl Plant Mewn Angen. Bu i bawb a oedd yn y cyfarfod eu llongyfarch.

## Eitem 4: Fforwm Ieuenctid Powys

4.1 Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad llafar gan Rebecca Unsworth, Swyddog Cynnwys Pobl Ifanc, Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, Cyngor Sir Powys, Angharad Newlands, Fforwm Ieuenctid Powys, Gwyn Bidgood, Fforwm Ieuenctid Powys a Konrad Ostoznik, Fforwm Ieuenctid Powys.

4.3 Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu cyflwyniad a gwahoddodd yr Aelodau i drafod y materion a godwyd.

## Cwestiynau Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd i'r Panel

4.4 Dywedodd yr Aelodau fod y cyflwyniad yn un gonest iawn ac yn adlewyrchiad gwirioneddol o fywyd pobl ifanc yn y Canolbarth. Cododd yr Aelodau ac unigolion y pwyntiau canlynol gyda'r panel:

Gofynnodd Mick Bates i'r fforwm ieuenctid pe bai'n gallu newid un peth am dyfu i fyny yn y Canolbarth beth fyddai hwnnw. Ymatebodd y fforwm ieuenctid drwy ddweud mai un o'r pethau y byddai'n newid fyddai gwella cysylltiadau a gwasanaethau trafnidiaeth yn y Canolbarth.

Cododd Rob Price, sy'n byw yn lleol, y bygythiad i wasanaethau Powys gan gynnwys trafnidiaeth, ac er ei fod yn cytuno â'r fforwm ieuenctid dywedodd hefyd fod y materion hyn yn effeithio ar bobl hyn yn yr ardal.

Amlinellodd Brian Rees, Ffermwyr Ifanc Maesyfed, y gwaith da mae'r ffermwyr ifanc yn ei wneud mewn cymunedau a'r sgiliau y gall pobl ifanc eu meithrin. Mynegodd bryder hefyd am y rheoliadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a materion ariannu sy'n rhoi pwysau ar grwpiau megis y ffermwyr ifanc. Ategodd Rob Watkins yr awydd i annog pobl ifanc i aros yn y Canolbarth. Gofynnodd Yvonne Owen Newns a oes targedau ar gyfer gwasanaethau cyffredinol ynteu ai mater o reoli argyfwng yw hyn. Ymatebodd Chris Price drwy ddweud ei bod yn ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i

ariannu mudiadau megis y ffermwyr ifanc a'i bod yn fater o ariannu cytbwys ac ystyried hefyd y mudiadau hynny sydd â'r angen mwyaf. Rhaid i'r cyngor ymdrin â rheoli argyfwng ond ni chaiff gwaith atal ei ddiystyru o gwbl.

Eglurodd Mr Jones, Arweinydd Cyngor Sir Powys, fod y cyngor wedi buddsoddi £6.8 miliwn ar gyfer gwasanaethau plant. Aeth Mr Jones ymlaen i egluro'r rhesymau dros y lefelau ariannu a gaiff eu dyrannu i wasanaethau ledled Powys.

Dywedodd Kirsty Williams fod Aelodau'r Cynulliad yn craffu ar y Llwyodraeth yn y cylch cynllunio cyllidebau presennol.

Eglurodd Bev Smith, Dirprwy Bennaeth Ysgol Gynradd Crossgates ei bod wedi symud ei theulu i'r canolbarth am ei bod o'r farn mai dyma'r lle gorau i dyfu i fyny. Cytunodd y Fforwm Ieuenctid ond dywedwyd y byddent yn symud i ffwrdd at ddibenion addysg uwch a gyrfa ond yn gobeithio dychwelyd i ymddeol a manteisio ar y diwylliant a'r iaith.

Soniodd Roger Abley am gyfyngiadau caniatâd cynllunio wrth weithio yng nghefn gwlad. Gofynnodd Clare Powell Ffermwyr Ifanc Brycheiniog, beth oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gadw ffermwyr ifanc yng Nghymru wledig, ac awgrymodd hyrwyddo mentrau drwy arian Ewropeaidd.

Ychwanegodd Kirsty Williams pe bai'n bosibl gwneud elw o ffermio y byddai hynny'n rheswm i bobl ifanc aros ac yn rheswm iddynt ffermio.

### Sylwadau i Gloi

5.1 Diolchodd y Cadeirydd i bawb a wnaeth gyflwyniadau ac i'r Aelodau ynghyd â'r gynulleidfa am eu cyfraniadau i'r cyfarfod. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i staff Gwesty'r Severn Arms am ddarparu lluniaeth a nododd hefyd fod y neuadd gymuned yn lleoliad ardderchog.

5.2 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf a'r awgrym i gyfarfod yn ardal Sir Benfro ym mis Chwefror.

## Gwasanaeth y Pwyllgor
## Tachwedd 2006